



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 Rhif 3092 (Cy.266)

2004 No. 3092 (W.266)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Trefniadau Amgen) (Diwygio)
(Cymru) 2004**

**The Local Authorities (Alternative
Arrangements) (Amendment)
(Wales) Regulations 2004**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") yn darparu bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pennu pa awdurdodau lleol a gaiff weithredu 'trefniadau amgen' h.y. trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r awdurdod nad ydynt yn golygu creu a gweithredu gweithrediaeth i'r awdurdod yn unol ag adran 31(1)(b) ac adran 32(1) o Ddeddf 2000.

Part II of the Local Government Act 2000 ("the 2000 Act") provides for the National Assembly for Wales to specify which local authorities may operate 'alternative arrangements' i.e. arrangements for the discharge of an authority's functions which do not involve the creation and operation of an executive in accordance with section 31(1)(b) and section 32(1) of the 2000 Act.

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001") (fel y'u diwygiwyd) yn caniatáu i bob cyngor sir a phob cyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru weithredu trefniadau amgen, ar yr amod bod y trefniadau hynny ar y ffurf y mae Rheoliadau 2001 (fel y'u diwygiwyd) yn gofyn amdani.

The Local Authority (Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001 ("the 2001 Regulations") (as amended) permit all county and county borough councils in Wales to operate alternative arrangements provided that those arrangements are in the form required by the 2001 Regulations (as amended).

Pennodd Rheoliadau 2001 swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod neu sydd i fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd o'r fath i raddau cyfyngedig yn unig neu o dan amgylchiadau penodedig yn unig. Yn rheoliad 2 mae'r rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i Rheoliadau 2001 yn Atodlen 1 drwy ychwanegu at y rhestr o swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod, drwy ychwanegu at y rhestr o swyddogaethau yn Atodlen 2 a all fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod (ond nad oes angen iddynt fod felly) a diwygio Atodlen 3 drwy ychwanegu at y swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod yn unig.

The 2001 Regulations specified functions that are not to be the responsibility of an authority's Board or are to be the responsibility of such a Board only to a limited extent or only in specified circumstances. In regulation 2 these regulations make changes to the 2001 Regulations in Schedule 1 by adding to the list of functions not to be the responsibility of an authority's Board, by adding to the list of functions in Schedule 2 which may (but need not) be the responsibility of an authority's Board and amending Schedule 3 by adding to functions not to be the sole responsibility of an authority's Board.

2004 Rhif 3092 (Cy.266)**2004 No. 3092 (W.266)****LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU****LOCAL GOVERNMENT,
WALES****Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Trefniadau Amgen) (Diwygio)
(Cymru) 2004****The Local Authorities (Alternative
Arrangements) (Amendment)
(Wales) Regulations 2004**

Wedi'u gwneud 23 Tachwedd 2004
Yn dod i rym 24 Tachwedd 2004

Made 23 November 2004
Coming into force 24 November 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 32, 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(a).

The National Assembly for Wales makes the following regulations in exercise of the powers conferred on it by sections 32, 105 and 106 of the Local Government Act 2000(a).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 24 Tachwedd 2004.

Name, commencement and application

1.-(1) These Regulations are called the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Amendment) (Wales) Regulations 2004 and come into force on 24 November 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau yn gymwys i Gymru yn unig.

(2) The Regulations apply to Wales only.

Diwygio Rheoliadau

2. Diwygir Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2001(b) fel a ganlyn -

Amendment of Regulations

2.- The Local Authorities (Alternative Arrangements) (Amendment) (Wales) Regulations 2001(b) are amended -

- (a) yn rheoliad 2, (ym mharagraff (i)) o'r diffiniad o "pwyllgor ardal" dileer "gyda phwerau dirprwyedig i arfer rhai neu'r cyfan o'r swyddogaethau yn rhan A o Atodlen 1";
- (b) yn is-baragraff (2)(b) o reoliad 4 mewnosoder ar y diwedd "a'r is-bwyllgorau";
- (c) ym mharagraff (2)(a) o reoliad 8 ar ei ddiwedd dileer "a" a mewnosoder "neu";
- (ch) yn is-baragraff (9)(a) o reoliad 10 mewnosoder ar y dechrau -

- (a) in regulation 2, (in paragraph (i)) of the definition of "area committee" delete "with delegated powers to exercise some or all of the functions in part A of Schedule 1";
- (b) in sub-paragraph (2)(b) of regulation 4 insert at the end "and sub committees";
- (c) in paragraph (2)(a) of regulation 8 at the end delete "and" and insert "or";
- (d) in sub-paragraph (9)(a) of regulation 10 insert at the beginning -

"yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ynglŷn â

"subject to the provisions in respect of calculation

(a) 2000 p.22.

(b) O.S. 2001/2284 (Cy.173) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynrychiolwyr Rhieni-lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysi (Cymru) 2001, O.S. 2001/3711 (Cy. 307), Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2002, O.S. 2002/810 (Cy. 90), a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2003, O.S. 2003/155 (Cy.25).

(a) 2000 c.22.

(b) S.I. 2001/2284 (W.173) as amended by the Parent Governor Representatives and Church Representatives (Wales) Regulations 2001 S.I. 2001/3711 (W.307), the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Amendment) (Wales) Regulations 2002 S.I. 2002/810 (W.90) and the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Amendment) (Wales) Regulations 2003 S.I. 2003/155 (W.25).

chyfrifo sylfaen y dreth gyngor ym mharagraff 22 o Atodlen 2";

(d) ym mharagraff (1) o reoliad 14 ar ôl "gyfrifoldeb" mewnosoder -

"i'r awdurdod lleol (heblaw'r rhai y mae'n rhaid iddynt gael eu cyflawni gan awdurdod cyfan yn unig) neu";

(dd) yn Atodlen 1 (Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod) yn unol â Rhan 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

(e) yn Atodlen 2 (Swyddogaethau a all fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod (ond nad oes angen iddynt fod felly)) yn unol â Rhan 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

(f) yn Atodlen 3 (Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod yn unig) yn unol â Rhan 3 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

of council tax base in paragraph 22 of Schedule 2";

(e) in paragraph (1) of regulation 14 after "responsibility" insert -

"of the local authority (other than those which must be discharged only by an authority as a whole) or";

(f) in Schedule 1 (Functions not to be the responsibility of an authority's Board) in accordance with Part 1 of the Schedule to these Regulations;

(g) in Schedule 2 (Functions which may (but need not be) the responsibility of an authority's Board) in accordance with Part 2 of the Schedule to these Regulations;

(h) in Schedule 3 (Functions not to be the sole responsibility of an authority's Board) in accordance with Part 3 of the Schedule to these Regulations.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

23 Tachwedd 2004

23 November 2004

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

ATODLEN 1

Rheoliad 2

Rhan 1

Diwygiadau i Atodlen 1

1. Yn Rhan B mewnosoder ar ôl paragraff 66:

Y Swyddogaeth

67. Swyddogaethau mewn perthynas â .
sefydlu Pwyllgor Trwyddedu

Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol

Adran 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (p.17).

2. Yn Rhan I: (1) dileer paragraffau 18, 19; a

(2) mewnosoder ar ôl paragraff 17:

Swyddogaethau	Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol
18. Y pwerau mewn perthynas â chofrestru gweithredwyr achub cerbydau modur.	Rhan 1 o Ddeddf Cerbydau (Troseddau) 2001 (p.3).
19. Y pŵer i benodi swyddogion at ddibenion penodol (penodi "priod swyddogion").	Adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
20. Y ddyletswydd i ddynodi swyddog yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod, ac i ddarparu staff etc.	Adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42).
21. Y ddyletswydd i ddynodi swyddog yn swyddog monitro, ac i ddarparu staff, etc.	Adran 5(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.
22. Y ddyletswydd i benderfynu terfyn benthycu fforddadwy.	Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.22).
23. Cymeradwyo strategaeth fuddsoddi flynyddol yn unol â chanllawiau.	Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.
24. Y ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol yn briodol.	Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.11).

SCHEDULE 1

Regulation 2

Part 1

Schedule 1 Amendments

1. In Part B insert after paragraph 66:

Function	Provision of Act or Statutory Instrument
67. Functions in respect of establishing a Licensing Committee.	Sections 6 of the Licensing Act 2003 (c.17).

2. In Part I: (1) delete paragraphs 18 and 19; and

(2) insert after paragraph 17:

Functions	Provision of Act or Statutory Instrument
18. Powers in respect of registration of motor salvage operators.	Part1 of the Vehicles (Crime) Act 2001 (c.3).
19. Power to appoint officers for particular purposes (appointment of "proper officers").	Section 270(3) of the Local Government Act 1972.
20. Duty to designate an officer as the head of the authority's paid service, and to provide staff etc.	Section 4(1) of the Local Government and Housing Act 1989 (c.42).
21. Duty to designate an officer as the monitoring officer, and to provide staff, etc.	Section 5(1) of the Local Government and Housing Act 1989.
22. Duty to determine affordable borrowing limit.	Section 3 of the Local Government Act 2003 (c.22).
23. Approval of annual investment strategy in accordance with guidance.	Section 15 of the Local Government Act 2003.
24. Duty to make arrangements for proper administration of financial affairs.	Section 151 of the Local Government Act 1972 (c.11).

RHAN 2

Diwygiadau i Atodlen 2

Ar y diwedd, ychwaneger:

"**22.** Swyddogaethau ynglyn â chyfrifo sylfaen y dreth gyngor yn unol ag unrhyw un o'r canlynol -

- (a) penderfynu swm ar gyfer eitem T yn adran 33(1) a 44(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;
- (b) penderfynu swm ar gyfer eitem TP yn adrannau 34(3), 45(3), 48(3) a 48(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;
- (c) penderfynu swm y mae ei angen i benderfynu swm ar gyfer yr eitem a grybwyllwyd ym mharagraff (a) neu (b) uchod.

23. Swyddogaethau trwyddedu yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac eithrio adran 6."

PART 2

Schedule 2 Amendments

At the end add:

"22. Functions in respect of the calculation of council tax base in accordance with any of the following -

- (a) the determination of an amount for item T in section 33(1) and 44(1) of the Local Government Finance Act 1992;
- (b) the determination of an amount for item TP in sections 34(3), 45(3), 48(3) and 48(4) of the Local Government Finance Act 1992;
- (c) the determination of an amount required for determining an amount for the item mentioned in paragraph (a) or (b) above.

23. Licensing functions in accordance with Part 2 of the Licensing Act 2003 except section 6."

RHAN 3

Diwygiadau i Atodlen 3

1. Yng ngholofn (2) o'r paragraff ynglyn â'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol dileer "92" a mewnosoder "108".
2. Dileer y cofnod ynglyn â'r Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd.
3. Ar y diwedd, ychwaneger:

(1) Cynlluniau a Strategaethau	(2) Cyfeirnod
Y pwerau i gymeradwyo Cynlluniau Strategol Partneriaeth Pobl Ifanc a Phartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc.	Adrannau 123, 124 a 125 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.

PART 3

Schedule 3 Amendments

1. In column (2) of the paragraph relating to the Local Transport Plan delete "92" and insert "108".
2. Delete the entry relating to Food Law Enforcement Service Plan.
3. At the end add:

(1) Plans and Strategies	(2) Reference
Powers to approve Young Peoples Partnership Strategic Plans and a Children and Young Peoples Framework Partnership.	Sections 123, 124 and 125 of the Learning and Skills Act 2000.

OFFERYNNAU STATUDOL

2004 Rhif 3092 (Cy.266)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Trefniadau Amgen) (Diwygio)
(Cymru) 2004

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 No. 3092 (W.266)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Local Authorities (Alternative
Arrangements) (Amendment)
(Wales) Regulations 2004

©© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00


W174/11/04

ON

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091033-8



9 780110 910338